# ADRODDIADAU ARHOLWYR

## LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT

## UNED 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

**IONAWR 2024**

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT**

**Lefel 3**

**Ionawr 2024**

## Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru

**Sylwadau Cyffredinol**

| | |
|---|---|
| **Nifer y Cofrestriadau:** | **305** |
| **Saesneg – Ar sgrin:** | **136** |
| **Cymraeg – Ar sgrin:** | **4** |
| **Saesneg – Papur:** | **153** |
| **Cymraeg – Papur:** | **12** |

Mae'r fformat, yr arddull a'r mathau o gwestiynau yn y papur hwn yr un fath ag mewn papurau blaenorol ac yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd dim cwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrediad o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 300. Roedd y cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5. Profodd y cwestiynau yn hygyrch i'r ymgeiswyr, a phrin iawn oedd cwestiynau na roddwyd cynnig arnynt. Roedd amseru'r papur wedi'i wneud yn dda, gan fod yr ymgeiswyr wedi ymateb yn dda ac yn fanwl i'r holl gwestiynau a ddarparwyd. Rhoddwyd cynnig ar bob cwestiwn, ac nid oedd dim cwestiwn yn fwy heriol na'r hyn gafodd ei ddefnyddio mewn unrhyw bapur arall ar gyfer yr uned hon.

**Adborth cwestiynau unigol.**

**1.** **Mae sgiliau cymdeithasol yn bwysig er mwyn galluogi plant i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol (*positive relationships*).**

**Amlinellwch amrywiaeth o strategaethau sy'n gallu cefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr amlinellu amrywiaeth o strategaethau sy'n gallu cefnogi datblygiad sgiliau cymdeithasol. Gall hyn ddod o brofiadau personol, profiadau yn y gwaith neu ddamcaniaeth, felly roedd potensial ar gyfer amrywiaeth eang o ymatebion perthnasol fyddai'n cefnogi perthnasoedd cadarnhaol ac yn galluogi datblygiad perthnasoedd arwyddocaol drwy ymarfer strategaethau sgiliau cymdeithasol cefnogol. Roedd y cwestiwn hwn yn ddechrau cadarnhaol i'r papur a chafwyd ymatebion da iawn iddo; roedd yr ymgeiswyr yn gallu sôn am amrywiaeth o brofiadau a strategaethau blaengar maen nhw wedi'u gweld neu eu profi. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn sôn am arwyddocâd grwpio neu baru plant a newid cynlluniau eistedd yn aml i gefnogi datblygiad cyffredinol cyfeillgarwch. Amlinellwyd datblygiad gweithgareddau allgyrsiol hefyd fel strategaeth allweddol i ddatblygu cyfarfod â phlant eraill â diddordebau tebyg. Roedd strategaethau eraill yn cynnwys dulliau â mwy o ffocws megis technegau holi, modelu rôl a chefnogi datblygiad emosiynol i alluogi rhyngweithio cymdeithasol a datrys problemau

© WJEC CBAC Ltd.

gwrthdaro. Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi dechrau da i'r arholiad i ymgeiswyr ac o ganlyniad roedd yr ymatebion yn tueddu i ennill marciau uchel am ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel uchel.

**2. Mae bod yn rhan o amgylchedd cariadus, sicr a sefydlog yn hanfodol bwysig i bawb, yn enwedig plant a phobl ifanc.**

**(a) Ystyriwch y ffactorau sy'n hybu sefydlogrwydd a sicrwydd (*stability and security*) ar gyfer iechyd a llesiant cadarnhaol plant.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ystyried y ffactorau sy'n hybu sefydlogrwydd a sicrwydd ar gyfer iechyd a llesiant cadarnhaol plant. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn berthnasol i anghenion plant a'r ffocws ar gefnogi plant i ddatblygu'n emosiynol. Roeddent yn ystyried meysydd allweddol yn ymwneud â galluogi plant i fod mewn amgylcheddau sy'n ddiogel ac yn eu helpu nhw i ffynnu o ran datblygiad, a hefyd i fagu hyder ac annibyniaeth drwy gyfrwng amrywiaeth eang o brofiadau cymdeithasol. Roedd y mwyafrif o ymatebion ymgeiswyr yn ymwneud â phwysigrwydd mynegi cariad a chefnogaeth yn gyson o fewn cartref diogel fel ffactorau allweddol i hybu sefydlogrwydd a sicrwydd. Cafwyd trafodaethau cadarn am ddiogelu plant rhag niwed ac arwyddocâd byw mewn cartref diogel a sicr lle caiff anghenion sylfaenol eu diwallu, megis bwyd, cefnogaeth ariannol a'u lle eu hunain. Cafwyd marciau uchel iawn yn gyffredinol am y cwestiwn hwn gan fod ymgeiswyr wedi rhoi ymatebion cadarnhaol a phenodol, drwy fynegi gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn.

**(b) Disgrifiwch ystyr y term Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (*Adverse Childhood Experiences*: ACEs).**

Mae'r cwestiwn hwn yn ddatblygiad pellach ar Cw.2 (a) ac yn gofyn i'r ymgeiswyr ddisgrifio ystyr y term Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn, a thystiolaeth glir yn y mwyafrif helaeth o atebion yr ymgeiswyr o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ystyr ACEs a'r amrywiaeth o brofiadau sy'n berthnasol i'r term ACEs. Roedd llawer o ymgeiswyr yn trafod arwyddocâd ACEs fel digwyddiad neu ddigwyddiadau trawmatig sydd wedi arwain at sefyllfaoedd negyddol neu brofiadau llawn straen neu ddychrynllyd. Darparodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o brofiadau y gellid eu defnyddio i ddisgrifio ystyr ACEs megis gwahanol fathau o gam-drin, esgeulustod, trawmâu, afiechyd a sefyllfaoedd neu brofiadau negyddol yn y cartref. Roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiadau cadarn o effaith sylweddol ACEs a hefyd o'r effeithiau tymor hir fyddai'n gallu achosi niwed pellach yn y dyfodol, megis camddefnyddio sylweddau, dirywiad iechyd meddwl a thrawma emosiynol. Roedd yr atebion a roddwyd yn fanwl a gwybodus ar y cyfan gan ddangos dealltwriaeth glir drwy Cw.2 (a) a (b).

**3. Nod Rhaglen Plant Iach Cymru yw dod ag iechyd ac addysg at ei gilydd i ddarparu ataliad (*prevention*) a chefnogaeth effeithiol i blant 0–19 oed a'u teuluoedd.**

**(a) Diffiniwch beth yw blaenoriaethau (*priorities*) Rhaglen Plant Iach Cymru. [6]**

Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi ymgeiswyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o Raglen Plant Iach Cymru a diffinio'r blaenoriaethau allweddol i ddod ag iechyd

ac addysg at ei gilydd i blant a'u teuluoedd. Roedd yr ymgeiswyr yn diffinio pwysigrwydd hybu addysg iechyd drwy gyfrwng rhaglenni sgrinio ac imiwneiddio cyffredinol, a chyngor cyffredinol i bobl ifanc ynglŷn â chyflyrau iechyd yn ystod plentyndod a llencyndod megis cyngor am y mislif a'r glasoed. Roedd llawer o ymgeiswyr yn diffinio blaenoriaethau Rhaglen Plant Iach Cymru o ddarparu ymgyrchoedd hybu iechyd megis bwyta'n iach a hylendid golchi dwylo. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi gwneud camgymeriadau yn eu gwybodaeth am Raglen Plant Iach Cymru ac wedi ymateb ar sail deddfau deddfwriaethol. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi diffiniad da ac yn gallu diffinio blaenoriaethau allweddol Rhaglen Plant Iach Cymru.

**(b) Amlinellwch beth yw rôl yr ymwelydd iechyd fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru.**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr i amlinellu rôl yr ymwelydd iechyd fel datblygiad pellach i Cw.3(a) fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi darparu amrywiaeth ystyriol a gwybodus o agweddau sydd o fewn rôl ymwelydd iechyd. Roedd y cwestiwn hwn yn darparu trafodaethau cadarn am rôl yr ymwelydd iechyd, megis y gwasanaeth ymweld sy'n cael ei ddarparu ar ôl genedigaeth, cyngor am fwydo'r baban a diddyfnu, darparu imiwneiddiadau, a chefnogi rhieni â llesiant ac anghenion y baban. Roedd ymgeiswyr yn aml yn sôn am agweddau diogelu ar rôl ymwelydd iechyd a sut bydden nhw'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i blant ac yn gweithredu i amddiffyn plant yn ôl yr angen. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi cymysgu rhwng rôl bydwraig ac ymwelydd iechyd ac yn cyfeirio at ddarparu cefnogaeth yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth. Ar y cyfan, cafwyd marciau uchel am y cwestiwn ac roedd yr ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o gyfrifoldebau a dyletswyddau sy'n rhan o rôl ymwelydd iechyd.

**4. Cafodd damcaniaeth Ivan Pavlov ddylanwad enfawr ar sut mae pobl yn gweld eu hunain drwy eu hymddygiad a'u proses ddysgu.**

**(a) Esboniwch y ddamcaniaeth cyflyru clasurol (*theory of classical conditioning*) gan Pavlov.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar y ddamcaniaeth yn benodol ac roedd angen iddyn nhw ddangos gwybodaeth am gyflyru clasurol a chofio arbrawf y damcaniaethwr Ivan Pavlov gyda chŵn. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac roedd gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o arbrawf Ivan Pavlov. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod yr arbrawf yn dda a sut roedd yn dangos bod cyflyru clasurol yn bodoli drwy gysylltu sain cloch ag ysgogiad bwyd. Roedd yr ymgeiswyr yn esbonio'n dda sut byddai'r gloch yn achosi i'r cŵn lafoerio am fwyd wrth glywed sain y gloch, ac yn aml yn galw hwn yn ymateb wedi'i gyflyru. Roedd ymatebion ymgeiswyr ar lefel uwch yn cyfeirio at ysgogiad bwyd heb ei gyflyru, a'r ymateb heb ei gyflyru o lafoerio, gan ddangos dealltwriaeth glir i esbonio mai'r ysgogiadau wedi'u cyflyru oedd seiniau'r gloch ac mai'r ymateb wedi'i gyflyru oedd bod y cŵn yn glafoerio wrth glywed sain y gloch. Ar y cyfan, cafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn ac roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi eu hunain yn dda iawn. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da iawn gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ddamcaniaeth cyflyru clasurol Pavlov.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b) Awgrymwch ffyrdd mae gweithwyr gofal plant yn gallu cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad blynyddoedd cynnar.**

Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi ymgeiswyr i barhau â'r un thema gan ddatblygu Cw.4 (a) ymhellach. Roedd angen i ymgeiswyr awgrymu ffyrdd gall gweithwyr gofal plant gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn y lleoliad blynyddoedd cynnar a chysylltu hyn ag ymddygiad a'r broses ddysgu, ac roedden nhw'n gallu cysylltu hyn â'u hesboniad o ddamcaniaeth cyflyru clasurol Pavlov. Roedd ymgeiswyr yn gallu sôn am amrywiaeth eang o brofiadau ymarferol maen nhw wedi'u cael wrth weithio gyda gweithiwr gofal plant proffesiynol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Roedd y cwestiwn yn rhoi awgrymiadau da o fathau o ffyrdd o hybu ymddygiad cadarnhaol, megis defnyddio gweithgareddau i ddatblygu parch a pherthnasoedd cadarnhaol, a hefyd canmol a gwobrwyo plant am ddangos ymddygiad cadarnhaol a charedigrwydd. Roedd ymgeiswyr yn sôn am y gwahanol raglenni a chynlluniau maen nhw wedi'u gweld a chael profiad ohonynt yn ymarferol fel siartiau, sticeri, tystysgrifau a gwobrau am ymddygiad ar-lein. Roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gadarn a phendant o'r maes gwybodaeth hwn ac yn gyffredinol yn gallu mynegi eu hunain i roi trafodaeth ar lefel uchel. Cafwyd marciau uchel am y cwestiwn hwn ac atebion da iawn; hyd yn oed pan fyddai ymgeiswyr yn cael trafferth â'u gwybodaeth wrth ateb Cw.4(a) roeddent yn gallu uniaethu'n dda â Cw.4(b) a defnyddio eu profiadau fel ffynhonnell gwybodaeth a dealltwriaeth.

**5. Mae nyrs ysgol yn chwarae rhan bwysig o ran monitro a hybu iechyd plant.**

**Archwiliwch rôl nyrs ysgol o ran cynnig darpariaeth iechyd i blant oed ysgol.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr archwilio rôl nyrs ysgol, ac ar y cyfan cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn. Roedd gan ymgeiswyr oedd yn deall y rôl hon gronfa wybodaeth glir a phenodol am arwyddocâd rôl nyrs ysgol, a'r dyletswyddau bob dydd o ddarparu gofal iechyd i blant oed ysgol. Roedd yr amrywiaeth o ymatebion yn cynnwys cefnogi plant ag anghenion iechyd penodol, darparu imiwneiddiadau, a hybu bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw. Roedd ymgeiswyr yn gallu archwilio'r agweddau ar ofal iechyd sy'n ymwneud â monitro twf a datblygiad iach a gweithio ochr yn ochr ag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Roedd yr atebion a roddwyd yn fanwl a gwybodus ar y cyfan ac yn dangos dealltwriaeth glir, er bod ymgeiswyr weithiau wedi drysu ynglŷn â beth roedd y rôl yn ei gynnwys ac wedi trafod gweithiwr iechyd proffesiynol hollol wahanol.

**6. Disgrifiwch beth yw pwysigrwydd a gwerth cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol (*extra-curricular activities*) yn yr ysgol.**

Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi ymgeiswyr i fyfyrio ar eu profiadau personol a'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad plant drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol o'u hymarfer mewn gwaith. Roedd ymgeiswyr yn gallu disgrifio pwysigrwydd rhoi mwy o gyfleoedd cymdeithasol i blant a gwella eu sgiliau cymdeithasol, gwneud ffrindiau newydd a gwella eu sgiliau cyfathrebu. Roedd ymgeiswyr hefyd yn disgrifio gwerth datblygu hunan-barch a hyder drwy gyfrwng profiadau dysgu cadarnhaol mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddynt ac yn aml yn darparu amrywiaeth o weithgareddau posibl fel pêl-droed, pêl-rwyd a rhaglenni gwobrau. Roedd ymgeiswyr yn gallu mynegi pwysigrwydd gweithgareddau allgyrsiol

© WJEC CBAC Ltd.

a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o werth y gweithgareddau hyn i ddarparu cefnogaeth a chynhyrchu gwell canlyniadau academaidd a phersonol.

**7. Crynhowch (*summarise*) beth yw gwerth defnyddio dulliau plentyn-ganolog i sicrhau bod anghenion ychwanegol plant yn cael eu bodloni.**

Roedd y cwestiwn hwn yn galluogi ymgeiswyr i drafod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a chrynhoi gwerth defnyddio dulliau plentyn-ganolog i sicrhau bod anghenion ychwanegol plant yn cael eu bodloni. Roedd ymgeiswyr yn gallu datblygu amrywiaeth o bwyntiau yn ymwneud â phrofiadau ymarferol yn ogystal â defnyddio eu gwybodaeth am yr agweddau damcaniaethol ar ddulliau plentyn-ganolog. Roedd ymgeiswyr yn gallu crynhoi sut mae'r dull plentyn-ganolog yn cefnogi datblygiad dewis ac annibyniaeth. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi sôn am bwysigrwydd defnyddio unigoliaeth yn y dulliau dysgu i gefnogi nodau ac anghenion penodol plentyn. Roedd ymgeiswyr yn aml yn darparu enghreifftiau o'u hymarfer i grynhoi'r mathau o ddulliau i'w defnyddio ac roedd rhai wedi datblygu hyn ymhellach ac wedi gallu darparu crynodeb o werth y dulliau; roedd yr ymatebion ar lefel uwch yn dangos dealltwriaeth gadarn o sicrhau bod anghenion ychwanegol plant yn cael eu bodloni drwy ddefnyddio dulliau plentyn-ganolog. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu bodloni amrywiaeth o feysydd yn eu hymatebion ac yn gyffredinol roedden nhw'n egluro gwerth defnyddio dulliau plentyn-ganolog i sicrhau bod anghenion ychwanegol plant yn cael eu bodloni.

**8. Myfyriwch (*reflect*) ar y rhesymau fyddai'n gallu effeithio ar bresenoldeb plentyn yn yr ysgol.**

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr anawsterau sy'n wynebu rhai plant o ran cyrraedd yr ysgol a'r heriau sydd weithiau'n eu rhwystro nhw rhag bod yn bresennol; mae'r rhesymau posibl yn eang iawn gan gynnwys dewis personol plentyn, sefyllfa mae'r plentyn ynddi neu anhawster gartref. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi darparu cwmpas eang o ymatebion, megis cymryd gwyliau yn ystod amser tymor, afiechyd, bwlio, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, problemau ag ymddygiad a diffyg cefnogaeth gan rieni. Roedd ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar y rhesymau a darparu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o sefyllfaoedd posibl allai ddigwydd a gostwng presenoldeb plentyn. Ar y cyfan, rhoddwyd atebion da iawn ac roedd yr ymgeiswyr yn gallu uniaethu'n dda â'r rhesymau fyddai'n gallu effeithio ar bresenoldeb plentyn yn yr ysgol

**9. Mae myfyrio ar ymarfer (*reflection of practice*) yn bwysig er mwyn creu newid cadarnhaol i blant.
Esboniwch sut mae cylch myfyriol (*reflective cycle*) Gibbs yn cefnogi ac yn annog newid cadarnhaol.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar egwyddor ddamcaniaethol cylch myfyriol Gibbs a sut gellir ei ddefnyddio i gefnogi ac annog newid cadarnhaol. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu esbonio gwerth cylch myfyriol Gibbs yn ymarferol iddyn nhw eu hunain, i'w cydweithwyr ac i blant. Rhoddwyd atebion da iawn gan drafod pob cam a manteision y broses fyfyrio hon fel ffordd o hunan-wella, myfyrio ar ymarfer, a hefyd dadansoddi sefyllfaoedd neu brofiadau yn y gweithle. Roedd ymgeiswyr yn gallu esbonio'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan gylch myfyriol Gibbs wrth ei ddefnyddio fel cylch o gamau gwerthuso i ategu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â gweithgareddau sy'n cael eu cwblhau gyda phlant a hefyd y

© WJEC CBAC Ltd.

gwerth o ran newid cadarnhaol i gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd ymgeiswyr yn aml yn gallu myfyrio ar y wybodaeth roedden nhw wedi'i chael o brofiadau yn y gweithle, ac yn gallu asesu gwerth myfyrio fel adnodd gwaith i annog dealltwriaeth a darparu cyfleoedd gwerthfawr i werthuso er mwyn gwneud newidiadau i ymarfer.

**10. Aseswch sut mae ymchwil ar addysg y blynyddoedd cynnar yn llywio (*informs*) polisïau a deddfwriaeth newydd.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr asesu sut mae ymchwil ar addysg y blynyddoedd cynnar yn llywio polisïau a deddfwriaeth newydd, a defnyddio'r wybodaeth maen nhw wedi'i hennill am newidiadau yn ymarferol a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Roedd llawer o ymgeiswyr yn darparu enghreifftiau o ymchwil i anghenion dysgu ychwanegol a sut mae newidiadau wedi cael eu gwneud i gefnogi plant drwy gyfrwng deddfwriaeth newydd a pholisïau ysgol newydd. Roedd ymgeiswyr hefyd yn canolbwyntio ar ymchwil maeth y blynyddoedd cynnar a'r newidiadau o ganlyniad i hynny i brydau ysgol a'r polisïau bwyta'n iach sydd wedi cael eu cyflwyno i gefnogi ffyrdd iach o fyw. Yn gyffredinol, roedd atebion yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o sut mae ymchwil ar addysg y blynyddoedd cynnar yn llywio polisïau a deddfwriaeth newydd. Roedd ymgeiswyr yn tueddu i ddatblygu esboniadau yn seiliedig ar y polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Ar y cyfan, cafwyd amryw o atebion da i'r cwestiwn ac roedd ymgeiswyr yn gallu uniaethu'n dda â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y maes hwn.

**11. Archwiliwch yr effaith gadarnhaol mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ei chael wrth reoleiddio gwasanaethau gofal, chwarae a dysgu i blant**.

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o bwysigrwydd rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Roedd angen i ymgeiswyr archwilio'r effaith gadarnhaol mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ei chael wrth reoleiddio gwasanaethau gofal, chwarae a dysgu i blant. Wrth ateb y cwestiwn hwn, roedd ymgeiswyr yn aml yn amlinellu'r mathau o leoliadau, fel gwasanaethau gofal plant a chwarae, allai gael eu harolygu ac yn archwilio swyddogaethau'r fframwaith rheoleiddio. Roedd ymgeiswyr yn rheolaidd yn trafod arolygu gwasanaethau gofal plant gan gynnwys asesiad o'r amgylchedd, mannau chwarae a chyfleusterau y tu allan. Roedd ymgeiswyr yn gallu archwilio effaith darparu amgylchedd glân, hylan a chyfforddus i blant. Roedd ymgeiswyr yn rhoi sylw i'r effaith gadarnhaol ar blant o fod mewn amgylchedd diogel â staff proffesiynol a chymwysedig i ofalu amdanynt, a sut mae hyn yn cael ei adolygu. Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr gan mai hwn oedd y cwestiwn olaf ar y papur, ac mae'n bosibl bod rhai ymgeiswyr wedi mynd yn brin o amser. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi drysu ynghylch rôl AGC ac wedi sôn yn anghywir am ddeddf ddeddfwriaethol. Yn gyffredinol, cafwyd atebion da iawn ac eglur i'r cwestiwn hwn gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth, ac roedd ymgeiswyr yn aml yn ennill marciau da iawn drwy archwilio effaith Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn modd cadarnhaol a phendant.

© WJEC CBAC Ltd.

**Argymhellion i ganolfannau.**

Roedd yr atebion yn glir ar y cyfan, ac roedd arholwyr yn gallu deall testun ymgeiswyr, a llawer wedi defnyddio dalenni ychwanegol i gwblhau eu hymateb yn ôl yr angen gan nodi'r cwestiwn yn glir. Cafodd yr arholiad ei gwblhau ar-lein ac ar gopïau papur, ac fel papurau blaenorol mae'n amlwg bod y cyfle i ysgrifennu atebion ar-lein o gymorth, gan fod yr opsiwn i ehangu'r man ateb o fudd mawr i ymgeiswyr sy'n rhoi ymateb manwl a hefyd i ymgeiswyr â llawysgrifen fras, ac roedd mwy o ganolfannau wedi dewis yr arholiad ar-lein nag mewn arholiadau blaenorol. Roedd atebion yr ymgeiswyr yn amrywio o ran y manylder a ddarparwyd ac roedd yn dda mai ychydig iawn o achosion o ddefnyddio pwyntiau bwled neu restri fel atebion a gafwyd, sy'n ddatblygiad cadarnhaol. Roedd y geiriau gorchymyn penodol yn amlwg wedi'u hystyried ac yn gyffredinol roedd yr ymgeiswyr wedi ymateb fel y disgwyl. Roedd tystiolaeth glir bod ymgeiswyr wedi darllen y cwestiwn yn iawn cyn ymateb ac yn aml roedd ymgeiswyr yn defnyddio uwcholeuwyr ar bapur a'r offeryn uwcholeuo ar sgrin i nodi pwyntiau allweddol i gael sylw yn y cwestiwn, oedd yn beth cadarnhaol iawn i'w weld. Mae defnyddio ffug-bapurau a chwestiynau ymarfer wedi bod yn fuddiol i atebion ymgeiswyr oherwydd ceir tystiolaeth o ddulliau ymateb cytbwys sy'n seiliedig ar y gair gorchymyn dan sylw a'r dyraniad marciau i'r cwestiwn unigol. Mae sgiliau ysgrifennu ymgeiswyr wedi gwella'n sylweddol, sydd wedi eu cynorthwyo i fynegi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus er mwyn gallu cyrraedd dyraniadau marciau'r bandiau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.